OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1844 (Cy.168)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cod Derbyniadau Ysgol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 6 Gorffennaf 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 85(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Derbyniadau Ysgol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwrnod Penodedig

2. Y diwrnod a bennir fel y diwrnod y daw'r Cod Derbyniadau Ysgol (y gosodwyd copi o ddrafft ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Mai 2009) i rym yw 15 Gorffennaf 2009.

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

6 Gorffennaf 2009

(**1**) 1998 p.31. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).